Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

LLANDUDNO
I SICRHAU GWELL NOSON ALLAN!

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# PARATOWCH EICH BUSNES AR GYFER Y FANER BORFFOR

## ... Am noson allan groesawgar

| | |
|---|---|
| **Gwnewch ardaloedd awyr agored yn gysurus** | Gwellwch flaen eich safle i greu awyrgylch cynnes a chroesawgar gyda'r nos. Gall pethau syml fel ychwanegu blodau, gwresogyddion, blancedi, seddi cyfforddus, goleuadau da a chadw'r tu allan yn lân ac yn daclus, annog pobl i aros a mwynhau'r lleoliad. |
| **Defnyddiwch gyfryngau cymdeithasol i arddangos eich arlwy gyda'r nos** | Postiwch yn rheolaidd am beth sy'n digwydd ar ôl 5pm - digwyddiadau, awyrgylch, cerddoriaeth fyw neu fwydlenni arbennig - i dynnu sylw at y ffaith fod Llandudno yn lleoliad bywiog a byrlymus gyda'r nos. |
| **Cynhaliwch ddigwyddiadau sy'n gwneud y gorau o ymwelwyr y nos** | Cynlluniwch weithgareddau a phrofiadau sy'n denu ymwelwyr yn ystod oriau brig gyda'r nos ac anogwch bobl i aros yn hirach. |
| **Os oes gennych staff sy'n delio â chwsmeriaid, ystyriwch hyfforddiant Llysgennad Twristiaeth Conwy** | Cefnogwch staff i fod yn llysgenhadon twristiaeth i Sir Conwy. Bydd gwybodaeth ac argymhellion lleol cryf yn gwella profiadau ymwelwyr (e-bost **tourismambassador@conwy.gov.uk**). |

twristiaeth@conwy.gov.uk #BanerBorffor #NosonAllanWell

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

LLANDUDNO
I SICRHAU GWELL NOSON ALLAN!

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# PARATOWCH EICH BUSNES AR GYFER Y FANER BORFFOR

## … Am noson allan fywiog

**Cofrestrwch eich digwyddiad yn RHAD AC AM DDIM ar ganllaw 'Beth sy'n Digwydd' Dewch i Gonwy**

Hyrwyddwch eich digwyddiadau am ddim trwy'r rhestrau Beth sy'n Digwydd Dewch i Gonwy. Mae hyn yn helpu i wneud y dref yn fwy gweladwy, yn denu mwy o ymwelwyr ac yn creu darpariaeth gyda'r nos gryfach a chydgysylltiedig ar draws Llandudno.

**Gweithiwch gyda phartneriaid eraill i greu arlwy unigryw ar ôl 5pm**

Cydweithiwch gyda busnesau gerllaw i ddatblygu gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb, er enghraifft, grwpiau darllen, cwisiau neu weithdai creadigol fel dylunio gwydr neu drefnu blodau.

**Cynigwch gymelliadau bach gyda'r nos neu gynigion arbennig 'ar ôl 5pm'**

Cyflwynwch gynigion arbennig am amser cyfyngedig fel gostyngiadau yn gynnar gyda'r nos, bwndeli prydau bwyd neu gynigion i 'siopwyr hwyr' i annog pobl i aros yn y dref yn hirach.

twristiaeth@conwy.gov.uk #BanerBorffor #NosonAllanWell

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

LLANDUDNO
I SICRHAU GWELL NOSON ALLAN!

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# PARATOWCH EICH BUSNES AR GYFER Y FANER BORFFOR

## ... Am noson allan fwy diogel

| | |
|---|---|
| **Chwaraewch rôl mewn gwyliadwriaeth oddefol** | Cadwch lygad ar y stryd ac adroddwch am bryderon lle bo'r angen - mae bod yn weledol agored a sylwgar yn helpu i greu amgylchedd mwy diogel (ystyriwch ymuno â PubWatch, ShopWatch). |
| **Darparwch hyfforddiant lles a diogelwch ychwanegol i staff** | Cefnogwch dimau, yn enwedig mewn lletygarwch, gyda mentrau megis Gofyn am Angela, Safe Space, Pubwatch a Shopwatch i helpu i greu amgylchedd mwy diogel. |
| **Arddangoswch stoc o gardiau 'Rhifau Defnyddiol' y Faner Borffor** | Cadwch gyflenwad o gardiau 'Rhifau Defnyddiol' y Faner Borffor mewn lle amlwg i'r cyhoedd eu cymryd i fynd gyda nhw. Mae'r cardiau hyn yn cynnwys manylion cysylltiadau brys allweddol a rhifau tacsis lleol, er mwyn helpu pobl i gael gafael ar wybodaeth bwysig yn gyflym a chynllunio siwrnai ddiogel adref. |
| **Ymgysylltwch â mentrau a phartneriaethau diogelwch cydnabyddedig** | Dangoswch eich ymrwymiad i arferion rheoli alcohol diogel a chyfrifol trwy ymuno â chynlluniau megis Braf Bob Nos, PubWatch neu Shopwatch, a chefnogi ymgyrchoedd fel Gofyn am Angela. Mae'r mentrau hyn yn helpu i feithrin ymddiriedaeth, gwella safonau a chreu amgylchedd mwy diogel i bawb. |

twristiaeth@conwy.gov.uk #BanerBorffor #NosonAllanWell

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

LLANDUDNO
FOR A BETTER NIGHT OUT!

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# PARATOWCH EICH BUSNES AR GYFER Y FANER BORFFOR

## ... Am noson allan gynaliadwy

**Hyrwyddwch opsiynau teithio diogel yn frwd**

The Purple Flag Zone map displays information about local taxis, bus times, helping visitors plan their journey home and feel confident staying later (email tourism@conwy.gov.uk for the toolkit).

**Ystyriwch ymestyn neu addasu eich oriau agor**

Aliniwch eich oriau agor â'r economi nos, er enghraifft, newid o amserlen draddodiadol 9am - 5pm i 10am - 6pm neu'n hwyrach er mwyn dal cwsmeriaid sy'n teithio adref o'r gwaith ac annog mwy o ymwelwyr ar ôl 5pm.

**Arddangoswch ddeunyddiau'r Faner Borffor i ddangos eich cefnogaeth**

Dangoswch bosteri megis Shhhh! Parchwch Ein Cymdogion, Naaaa! Crëwch Atgofion Nid Llanast, a map Parth y Faner Borffor mewn mannau amlwg (e-bostiwch tourism@conwy.gov.uk am y pecyn gwaith).

## Hoffech chi wybod rhagor?

**Ymunwch â rhestr bostio'r Faner Borffor a chymerwch ran**

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau'r gweithgor, rhannu eich syniadau a helpu i siapio dyfodol y Faner Borffor yn Llandudno, cysylltwch â tourism@conwy.gov.uk.

tourism@conwy.gov.uk #PurpleFlag #BetterNightOut